

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad cyhoeddi: 11 Awst 2016

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD / POLISI

Teitl: RHOI GWYBOD AM DDYDDIAD RHOI'R GORAU I BROFI AM DUEDDIAD RWBELA YNG NGHYMRU

Dyddiad dod i ben / Adolygu: D/G

I'w weithredu gan :

Byrddau Iechyd Lleol

Angen gweithredu erbyn: 3 Hydref 2016

Anfonir gan:

Y Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru a'r Prif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Stephen Barry
Y Gangen Diogelu Iechyd
Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru
Ffôn: (029) 20823328
E-bost: stephen.barry@cymru.gsi.gov.uk

Dogfen(nau) amgaeedig: Dim

Annwyl Gyfaill,

HYSBYSIAD O DDYDDIAD AR GYFER RHOI'R GORAU I SGRINIO CYNENEDIGOL AM DUEDDIAD RWBELA YNG NGHYMRU

1. Rwyf yn ysgrifennu i roi gwybod ichi y rhoddir y gorau i sgrinio cynenedigol am dueddiad rwbela i fenywod beichiog yng Nghymru ar gyfer menywod y cymerir sampl o'u gwaed ar **3 Hydref 2016** neu ar ôl hynny.

Cefndir

2. Canfu adolygiad o sgrinio cynenedigol am dueddiad rwbela, a gynhaliwyd yn 2012, gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC) nad yw sgrinio am dueddiad rwbela yn ystod beichiogrwydd bellach yn bodloni'r meini prawf UK NSC ar gyfer rhaglen sgrinio oherwydd effeithiolrwydd imiwneiddio rhag rwbela erbyn hyn: <http://legacy.screening.nhs.uk/rubellasusceptibility>

3. Mae Pwyllgor Sgrinio Cymru wedi ystyried argymhelliad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ac wedi cadarnhau'r penderfyniad i Gymru. Daeth sgrinio i ben yn Lloegr yn Ebrill 2016 ac yn yr Alban ym Mehefin 2016. Dylai'r cynnig o sgrinio cynenedigol ar gyfer tueddiad rwbela ddod i ben ar gyfer menywod beichiog yng Nghymru y cymerir sampl o'u gwaed ar **3 Hydref 2016** neu ar ôl hynny.

4. O ganlyniad i'r nifer uchel sy'n manteisio ar frechiad y frech goch, clwy'r pennau a rwbela (MMR), mae epidemioleg rwbela wedi newid, gan ddarparu'r sail resymegol i roi'r gorau i sgrinio am y tueddiad yn ystod beichiogrwydd:

- Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd mae lefelau heintiau rwbela yn y DU wedi cael eu dileu.
- Nid yw sgrinio am dueddiad rwbela yn ystod beichiogrwydd yn rhoi unrhyw amddiffyniad i'r baban yn y groth yn y beichiogrwydd presennol.
- Gall y prawf roi tawelwch meddwl ffug i rai menywod nad ydynt yn agored i haint rwbela yn y beichiogrwydd presennol.
- Imiwneiddiad llawn cyn beichiogi yw'r ffordd fwyaf effeithiol o amddiffyn menywod rhag rwbela yn ystod beichiogrwydd. Argymhellir dau ddos o'r brechlyn MMR.
- Nid yw rhoi'r gorau i sgrinio cynenedigol yn debygol o arwain at gyfraddau uwch o rwbela cynhenid. Cofnodwyd 12 o achosion o rwbela cynhenid yn y DU rhwng 2005 a 2015, ond ni allai'r un o'r rhain fod wedi cael eu rhwystro gan y rhaglen sgrinio gan mai menywod a gafodd eu geni dramor oeddent. Ni chafwyd achosion o rwbela cynhenid yng Nghymru yn y 10 mlynedd diwethaf. Byddwn yn parhau i fonitro achosion ar ôl i sgrinio ddod i ben.

Pwyntiau allweddol ar gyfer GIG Cymru

5. Ni chaiff sgrinio cynenedigol ar gyfer tueddiad rwbela ei gynnig i fenywod y cymerir sampl o'u gwaed ar **3 Hydref 2016** neu ar ôl hynny. Nid oes i'r newid hwn unrhyw oblygiadau ar gyfer y cynnig o sgrinio cynenedigol am HIV, hepatitis B a sifffilis ym mhob beichiogrwydd. Bydd y mathau hyn o sgrinio'n parhau.

6. Dylid cwblhau'r llwybr sgrinio ar gyfer menywod sy'n cael cynnig ac sy'n derbyn sgrinio ar gyfer rwbela cyn 3 Hydref 2016. Dylid parhau i adrodd ar ganlyniadau ar gyfer menywod sy'n archebu lle yn y garfan hon. Bydd y labordy yn adolygu dyddiad y sampl a phrofi'r rhai sy'n cael eu cymryd cyn 3 Hydref.

7. Dylai gweithwyr iechyd proffesiynol gynyddu eu ffocws ar reoli brechau yn ystod beichiogrwydd. Mae angen i bob menyw feichiog wybod y dylent ddweud wrth eu bydwraig neu eu meddyg cyn gynted â phosibl os ydynt yn cael brech neu'n dod i gysylltiad â rhywun sydd â brech.

8. Mae gan y brechlyn MMR rôl allweddol o ran darparu imiwnedd rhag rwbela yn y gymuned, **ond gan mai brechlyn byw yw MMR rhaid peidio â'i roi yn ystod beichiogrwydd.**

9. Bydd parhau i atal rwbela cynhenid yn dibynnu ar nodi menywod nad ydynt yn cael eu himiwneiddio'n llawn. Dylid dod i wybod yr hanes imiwneiddio yn ystod beichiogrwydd, a dylai'r brechlyn MMR ôl-enedigol gael ei gynnig gan wasanaethau mamolaeth a gwasanaethau gofal sylfaenol i fenywod ar ôl iddynt esgor, fel y nodwyd.

10. Dylai bydwragedd atgoffa menywod beichiog yn ystod sgrinio cynenedigol ac yn ystod cysylltiadau cymunedol yn dilyn esgor, y dylent ofyn yn eu meddygfa os nad ydynt yn sicr ynghylch eu statws o ran y brechiad MMR.

11. Dylai ymwelwyr iechyd hefyd holi am statws y fam o ran brechiad MMR a chynghori'r fam, os nad yw wedi'i himiwneiddio'n llawn, i gysylltu â'i meddygfa am gyngor.

12. Dylai staff gofal sylfaenol cymryd cyfleoedd priodol i wirio bod dau ddos o MMR wedi'u rhoi ar gyfer:

- yr holl blant, pobl ifanc ac oedolion ifanc sydd heb gael eu brechu,
- newydd-ddyfodiaid i'r DU adeg ymgynghoriad cofrestru gyda phractis cyffredinol, a
- menywod sy'n manteisio ar wasanaethau cyn-cenhedlu; ffrwythlondeb neu gam-esgor a therfynu.

13. Mae rhagor o ganllawiau ar gael yn y llyfr gwyrdd:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/147968/Green-Book-Chapter-21-v2_0.pdf

Cyfathrebu

14. Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru weithdy codi ymwybyddiaeth gydag arweinwyr llywodraethu a chydlynwyr cynenedigol ar 7 Gorffennaf 2016, i drafod y newidiadau ac i gynyddu gwybodaeth broffesiynol am bwysigrwydd rheoli brechau yn ystod beichiogrwydd. Mae nodyn briffio wedi'i anfon at arweinwyr bydwreigiaeth i'w ledaenu i'w timau.

15. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud diwygiadau i'r Canllaw ar heintiau mewn beichiogrwydd ar gyfer gwasanaethau mamolaeth sy'n cael ei ddiweddarau ym mis Hydref, ac a fydd gael ar wefan Sgrinio Cynenedigol Cymru. Hefyd ceir amrywiaeth o daflenni imiwneiddio ar gyfer cleifion a gellir gofyn am y rhain yn y Llyfrgell Hybu Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, a gellir cysylltu â nhw drwy: hplibrary@wales.nhs.uk neu **08456 064050**.

16. Y cyswllt allweddol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yw Dr Sharon Hillier, Dirprwy Gyfarwyddwr; yr Is-adran Sgrinio a gellir cysylltu â hi drwy: sharon.hillier@wales.nhs.uk neu **029 2078 7882**.

Yn gywir



Dr Frank Atherton

Prif Swyddog Meddygol /
Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru



Yr Athro Jean White

Prif Swyddog Nyrsio / Cyfarwyddwr
Nyrsio GIG Cymru